

# Cenn@d

GORFFENNAF 10 2024 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 176


O'r byd a'r betws

## Tradwy'r etholiad

Yn yr erthygl ddiwethaf (gw. [Cenn@d 173](#), 19 Mehefin 2024), cydnabod bod yna etholiadau mewn sawl gwlad yn ystod y flwyddyn hon a wnaethom, ond bellach yr her fydd arwain y system wleidyddol i wasanaethu'r etholwyr yn gyffredinol. Nid arsylwi a galw llywodraeth arall i gyfrif fydd Syr Keir Starmer o hyn ymlaen, ond llywio'i gabinet amlweddol. Bydd yn gwireddu polisiau i gynnig tegwch a chyfiawnder i drigolion gwledydd Prydain, meithrin parch a hygredded gwleidyddol a meithrin diwydiannau amrywiol i gynnal yr economi gyfan. O leiaf, dyna mae wedi'i gyfleu yn ei ddatganiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae gan y Blaid Lafur fwyafrif helaeth bellach, ac mae'n bwysig bod y pleidiau eraill yn cydweithio er mwyn arsylwi a galw i gyfrif waith y llywodraeth. Prin bod unrhyw bortffolio oddi mewn i'r llywodraeth wedi rhedeg yn llyfn ers tro. Hawlia'r Ceidwadwyr fod yr economi yn gwella, a bod y broses o ymryddhau o hualau Ewrop, canlyniadau prisiau bwyd a chostau cefnogi arfogi Wcráin wedi effeithio ar economi'r Deyrnas Gyfunol, heb anghofio heriau Cofid. Nid amcan erthygl fel hon yw pwysu a mesur cyfrifoldebau llywodraeth y Blaid Lafur, ond cadarnhau bod angen i bawb sy'n byw yng ngwledydd Prydain gymryd diddordeb yng ngwleidyddiaeth Prydain gyfan. Dylem fod yn barod i awgrymu syniadau cadarnhaol ac arsylwi ar ganlyniadau'r polisiau gyda'r gwleidyddion sy'n ein cynrychioli, a chynnig beirniadaeth, lle bo hynny'n briodol, i'r llywodraeth yn San Steffan.

Tybiaf mai un o wendidau dinasyddion gwledydd Prydain yw ein bod yn ddall i amgylchiadau pobl eraill – y lleol, y cenedlaethol a'r rhai sy'n byw ledled Prydain. Pa mor aml y bu i Undeb/



Y dirwedd wleidyddol yng Nghymru wedi'r etholiad

Cymanfa Gyffredinol, Henaduriaethau, Cyrddau Dosbarth neu eglwysi unigol ohebu â'r Aelodau Seneddol, boed i werthfawrogi neu i feirniadu? Mae'r cyfarpar digidol yn gwneud rhannu gohebiaeth ag Aelodau Seneddol San Steffan a Chaerdydd yn hawdd, a bydd gohebu ag adrannau oddi mewn i'r senedd-dai yr un mor syml. Beth bynnag yw daliadau neu ddiffyg daliadau'r sawl sy'n ein cynrychioli yn y senedd-dai hyn, bydd gan bob gwleidydd ddiddordeb mewn deall pob safbwynt sydd gan y dinasyddion a chyrrff o bobl fel eglwysi i'w rannu.

Gwae ni rhag datgysylltu ein hymrwymadau crefyddol oddi wrth ein hymwneud gwleidyddol. Mae gan bob crefydd ddiddordeb mewn lleihau tloedi, meithrin y ddarpariaeth orau bosibl ym meysydd iechyd, addysg, cartrefedd, cyfraith a threfn, cyflogaeth, a llu o feysydd eraill. Yn yr un modd, bydd gennym gonsyrn greddfodol o blaid heddwch a chyfiawnder byd-eang. Gŵyr pob gwleidydd fod deg llythyr/e-bost

ar unrhyw un mater yn cynrychioli barn cannoedd nad ydynt wedi gohebu.

Mae'n iach ac yn bwysig ein bod yn gweddio dros ein gwleidyddion, yn union fel y byddwn yn gweddio dros ein gilydd. Beth bynnag yw ein hymateb i bolisiau newydd y Blaid Lafur, cyn diwedd y flwyddyn, beth am gysylltu â'ch Aelod Seneddol newydd yn cynnig sylw cadarnhaol? Gallai hyn gyffwrdd â materion yn ymwneud â darpariaeth meddygfa i'r gymuned, gofal cymdeithasol lleol, hyfforddiant i bobl ifanc ddatblygu sgiliau gwaith neu faint o dai sydd ar gael yn eich hardal. Pynciau Senedd y Bae yw'r rhain, ond bydd cost morgeisi, pensiynau, buddsoddiadau mewn diwydiant, ac ymateb i ddigwyddiadau tramor yn gofyn gohebu â Llywodraeth San Steffan.

Peidiwn â phentyrru beirniadaethau ar wleidyddion, ond eu cynorthwyo i ddeall meddwl y gymdeithas leol, a chymryd diddordeb yn eu hymateb. Naddwn y bensil!

Denzil John

Cofio Jürgen Moltmann  
(1926–2024)  
Tudalen 3

Balm i'r Enaid: adroddiad ar Ysgol Haf  
y Weinidogaeth Iacháu  
Tudalen 5

Pererindota yn Sir Gâr  
Tudalen 8

## Disglair '24

Rhyfeddod yw meddwl bod Disglair wedi bod yn rhan o ddyddiadur Coleg y Bala ers y 15 mlynedd diwethaf! Mae'n ffefryn cadarn ac yn gwrs y gwelwn ffafr yr Arglwydd arno! Doedd eleni ddim yn eithriad. Ein thema oedd: Ein harbed rhag a'n harbed ar gyfer.

Nos Wener bu ein Hysgrifennydd Cyffredinol, Nan Powell-Davies, yn siarad am y tywyllwch sydd o'n cwmpas cyn inni groesawu goleuni Iesu i'n bywydau. Roedd yn fodd hyfryd o'n hatgoffa o'r Efenigyl ac am bopeth y mae'n rhaid inni fod yn ddiolchgar amdano. Cawsom y fraint o wrando ar dystiolaeth un o'n pobl ifanc yma yn y Bala a sut y daeth i adnabod Iesu. Mawr ydy ein llawenydd yn y newyddion da hwn!

Dechreuodd bore Sadwrn gyda bwrdd pori brecwast, creadigaeth sy'n adlewyrchu Duw ein creawdwr. Cawsom ein harwain yn hyfryd mewn addoliad gan Delyth Dempsey Jones ac agorwyd y gair i ni gan Mari Williams. Yr adnod y canolbwyntiodd arni oedd Effesiaid 2:10, "Mae wedi'n creu mewn perthynas â'r Meseia Iesu, i ni wneud yr holl bethau da mae o wedi'u trefnu ymlaen llaw i ni eu gwneud" (B.net). Rydyn ni wedi cael ein galw, ac mae gan Dduw bwrpas i ni, bob un ohonom! Cawsom ein hannog a'n herio i gamu i mewn i bopeth sydd gan Grist i ni. Cawsom ein calonogi ymhellach gan ein panel prynhawn o fenywod ysbrydoledig. Merched sy'n ymwneud â'r eglwys leol, merched sy'n ymwneud â'u cymunedau, eu cartrefi, eu manau gwaith a sut mae Duw yn eu defnyddio nhw a sut y gall Duw ein defnyddio ni!

Cafwyd llawer iawn o de a chacen yn ystod y dydd, a chawsom ein hysbrydoli ymhellach gan wraig hyn yn rhannu ei stori am ddaioni Duw a sut y cyfarfu â hi mewn ffordd hollol annisgwyl! Os nad oedd hynny'n ddigon, daethom i ben drwy edrych ar hanes Lydia yn Actau 16: "Agorodd yr Arglwydd ei chalon i ymateb



Mari Williams yn agor y gair



i neges Paul". A ydy ein calonnau ni wedi eu hagog i ymateb i'r hyn y mae Iesu'n ein galw iddo? A allwn ni gael ein defnyddio i ddo â'i oleuni Ef i'n heglwys, ein cymunedau, ein cartrefi a'n gweithleoedd? A allwn ni fod yn ufudd a gadael iddo wneud y gweddill?

Roedd Disglair '24 yn sicr yn wledd i'w ferched Ef; fe ysbrydolodd, fe anogodd, fe heriodd ac fe'n cymhellodd ymlaen! Mae Duw mor dda wrthon ni, mae mor hael. Felly bydded inni fod fel Lydia, yn barod i agor ein calonnau iddo.

*Siân Edwards  
Coleg y Bala*

## 'Dathlu'r Sulgwyn' yn cefnogi Canser Macmillan yng Nghapel Shiloh, Llanbedr Pont Steffan

Trefnwyd noson arbennig iawn gan Gerald Morgan, Tregaron, gyda chymorth aelodau Capel Shiloh nos Iau, 9 Mai. Agorwyd y noson gan Twynog Davies, Ysgrifennydd Capel Shiloh, a groesawodd Delyth Morgans Phillips, Talsarn, i arwain y canu cynulleidfaol, gyda Neli Jones, Pontrhydfendigaid, yn cyfeilio. Llywydd y noson oedd Ben Lake, Aelod Seneddol Ceredigion, a chroesawyd ef a'i briod, Elin. Yn ei anerchiad diolchodd i bawb am gyfrannu at noson i'w chofio a chefnogi elusen Canser Macmillan. Cyfeiriodd at waith allweddol yr elusen yn cefnogi'r cleifion hynny a'u teuluoedd a effeithir gan ganser. Croesawyd hefyd Faer a Maeres Llanbed, y Cynghorydd Rhys Bebb Jones a Shân Jones, i'w digwyddiad olaf ar derfyn eu blwyddyn yn Faer a Maeres Llanbed.

Mwynhaodd y gynulleidfa wledd o gerddoriaeth. Cafwyd unawdau gan Carys Ann Davies, Pontrhydfendigaid, a Dafydd Jones, Ciliau Aeron, gyda Neli Jones yn cyfeilio iddynt. Cyfrannodd tri côr i'r arlwy, sef Côr Cymysg Bytholwyrdd (Arweinydd: Rhiannon Lewis; Cyfeilydd: Lois Williams), Côr Merched Corisma



Y rhai a gymerodd ran yn y noson

(Arweinydd: Carys Lewis; Cyfeilydd: Lois Williams) a Chôr Meibion Cwmann (Arweinydd: Sharon Dafis; Cyfeilydd: Elonwy Pugh Huysmans). Cafwyd darlleniadau o'r ysgrythur gan Llinos Jones, Cwmann, a Huw Glyn Williams, Silian.

Diolchodd Gerald Morgan i bawb a gyfrannodd at noson lwyddiannus ac am y casgliad o dros £550 tuag at elusen Canser Macmillan. Diolchodd hefyd i staff Cangen HSBC Llanbed, fydd yn cyfrannu rhodd ariannol i'r casgliad ddiwedd Mai

o'r gwerthiant llyfrau ail-law sydd yn y gangen.

Darparwyd paned ar y diwedd yn y festri gan aelodau Capel Shiloh. Diolch yn fawr iawn i bob un gyfrannodd at arlwy a llwyddiant y noson a chefnogi elusen Canser Macmillan. Mae'n darparu gofal iechyd arbenigol, cyngor a gwybodaeth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan ganser. Cewch ychwaneg o wybodaeth am yr elusen ar ei gwefan: <https://www.macmillan.org.uk/>

*Rhys Bebb Jones*

## Cofio Jürgen Moltmann (1926–2024)

Yng Nghaeredin yn 1965 roeddwn yn rhannu ystafell gydag Ulrich Kuder, myfyriwr ymchwil o Brifysgol Tübingen. Roedd yn ystafell braf ac eang, gyda ffenestri mawr yn edrych i lawr ar erddi hardd Princess Street. Yn hytrach na mynd i'r llyfrgell i ddilyn ei waith ymchwil, yr oedd Ulrich yn dewis treulio oriau bob dydd yn ein hystafell gan gau'r llenni'n dynn a gweithio dan olau lamp mewn un cornel fechan. Bu felly am ddau dymor. Honnai ei fod yn gweithio ac yn gweld yn well.

Daeth y cyfnod hwnnw yn ôl i'm meddwl wrth ddarllen am farwolaeth Jurgen Moltmann ar 3 Mehefin yn 98 oed. Moltmann, a anwyd ar gyrion Hamburg, oedd yr olaf o ddiwinyddion 'wedi Auschwitz'. Ond nid yw ei enw mor adnabyddus â Dietrich Bonhoeffer ac eraill, ac ni fu llawer o sylw i'w farwolaeth chwaith. Er na fu yn Auschwitz, bu Moltmann yng nghanol y tywyllwch a orchuddiodd yr Almaen ac Ewrop yn yr Ail Ryfel Byd.

Yn 16 oed yr oedd wedi cael ei alw, fel pawb o'i oed, i fyddin yr Almaen, gan ddechrau fel aelod o'r Gwasanaeth Tân yn cadw gwyliadwriaeth am awyrennau'r gelyn yn Hamburg. Fe welodd laddfa'r 40,000 yn y ddinas hardd honno a ddinistriwyd bron yn llwyr gan Awyrlu Prydain. Yn y fan honno – ac yntau o gartref digrefydd – y gofynnodd am y tro cyntaf i Dduw: 'Ble rwyd ti?'

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, ac wedi bod am dair blynedd yn weinidog yn Bremen ysgrifennodd, 'Ni chofiaf amser i mi ymrwymo i Grist (*a decision for Christ*) yw'r cyfieithiad Saesneg) ond fe wn i sicrwydd mai yn nhywyllwch fy enaid y gwelodd Crist fi.'



Moltmann yn weinidog ifanc yn Bremen

Bu am dair blynedd yn garcharor rhyfel yng ngwlad Belg, yr Alban a Lloegr, ac yn y cyfnod hwnnw cafodd brofiadau a newidiodd ei fywyd. Derbyniodd Feibl gan gaplan ac fe ddaeth am y tro cyntaf ar draws Salm 139 ('I ba le yr af oddi

wrth dy Ysbryd?') ac Efengyl Marc ('Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?'). Yn y salm honno y darllenodd am Dduw'r golau a'r tywyllwch, ac yn Efengyl Marc fe gafodd ei gyflwyno i Grist meidrol a ddaeth yn 'frawd mawr iddo'. Ond efallai (a chofio teitl y sioe gerdd am Paul Robeson) y byddai 'Hwn yw fy mrawd' yn well disgrifiad o'r berthynas. Er iddo'i drwytho'i hun yn yr Efengylau eraill, parhaodd Efengyl Marc yn agos iawn i'w galon ac y mae hynny'n help i ddeall ei berthynas â Christ yn ei gyfrol 'Ffordd Iesu Grist'.

Yn ystod 1965 fe ddechreuodd Ulrich Kuder ddarllen cyfrol enwocaf Moltmann (a oedd erbyn hyn yn darlithio yn Bonn), sef 'Diwinyddiaeth Gobaith', oedd wedi ei chyhoeddi yn yr Almaen yn 1964. Fe glywais lawer am ei gyffro o ddarllen Moltmann y flwyddyn honno ac am obaith Ulrich y byddai'r Moltmann hwn yn dod yn Athro Diwinyddiaeth yn ei goleg ef yn Tübingen. Fe wireddwyd hynny; bu Moltmann yn Athro o 1967 hyd 1994 yn Tübingen, ond fe gafodd Ulrich ei hun y fraint o ddod hefyd yn ddarlithydd yn adran ei arwr!

Fe fyddai'n braf petawn yn medru ysgrifennu erthygl goffa i Jürgen Moltmann, ond nid oes gennyf y cymwysterau i wneud hynny. Fe ysgrifennodd naw prif gyfrol ac o leiaf 35 o gyfrolau eraill, heb sôn am erthyglau a darlithoedd.

Rhaid nodi'r tair cyfrol a'i gwnaeth yn ddiwinydd byd-eang, sef 'Diwinyddiaeth Gobaith' (1964), 'Y Duw Croeshoeliedig' (1972) a'r 'Eglwys yng ngrym yr Ysbryd Glân' (1975). Nid oedd darllen y cyfrolau hyn yn waith hawdd, ac ni allwn deimlo morgyffrousag Ulrich ynglŷn â Moltmann! Ond deuthum i sylweddoli na fu'r cyfrolau hyn yn hawdd i'w hysgrifennu chwaith oherwydd mai 'ffwrn dân' o gyfrolau ac nid gwaith academydd ydynt. Maent yn mynd i galon argyfwng ein dynoliaeth, ein crefydd a'n gwareiddiad – argyfwng yr ydym yn ôl ynddo eto yn nhywyllwch 2024.

Cafodd Moltmann wahoddiad i ddarlithio mewn cynhadledd ym Mhrifysgol Duke yn America ar sail yr ymateb a fu i 'Diwinyddiaeth Gobaith'. Yr oedd hynny yn 1968 ac yr oedd tudalen flaen y *New York Times* wedi cyhoeddi cyn y gynhadledd: 'The theology of yesterday's "God is Dead" is now "the Theology of Hope"'. Yr oedd y byd yn dyheu am neges o obaith ar ôl cyflafan y rhyfel a'i ganlyniadau. Ond ar ganol y gynhadledd cyhoeddwyd bod Martin Luther King wedi ei lofruddio. Bu ymateb treisgar a gwrthdaro ar strydoedd dinasoedd

America a daeth dinas Durham fel pob dinas dan waharddiad nos (*curfew*). Bu'n rhaid dod â'r gynhadledd i ben.

Ond, yn ôl Moltmann, doedd y gair 'gobaith' ddim rywsut yn addas i wlad oedd wedi byw gan gredu mai gwlad gwireddu breuddwydion a llawn gobethion ydoedd i'r Americanwyr gwyn. Ond nid dyna'r gwir am America i bawb. Ystyriai Moltmann fod angen i'r gwyn hefyd, fel y du, wybod am y Duw a ddiodeffodd ac am y Crist yn ei atgyfodiad sy'n obaith i'r byd gan ddwyn rhyddid, i'r du a'r gwyn. I'r caethweision a'u teuluoedd roedd y 'ddiwinyddiaeth rhyddhad' hon wedi codi MLK i fod yn broffwyd ei bobl. Yn ôl Moltmann ei hun, yn y cyfnod hwnnw y dechreuodd ysgrifennu 'Y Duw Croeshoeliedig'.

O'i holl gyfraniadau, fel diwinydd 'wedi Auschwitz' y cofir am Moltmann. Wedi Auschwitz pwysleisiodd fod gweddïau'r Iddew a gweddïau'r Cristion ('Sh'ma Israel' ac 'Ein Tad') wedi'u gweddïo yn un weddi yn Auschwitz. Fe gredai yntau, Jürgen Moltmann, 'nad oes Duw y gallaf ei addoli a'm cefn wedi ei droi tuag at Auschwitz'. Am y tro cyntaf ers y rhywy fawr rhwyg yr Iddew a'r Cristion (a chanlyniad erchyll y rhywy honno), maent yn addoli yr un Duw yn Auschwitz.

Daeth Moltmann i gredu mai'r berthynas mewn addoli yw'r berthynas ddyfnaf rhwyg dyn a Duw. Dyma addoli a diwinyddiaeth y ffwrn dân: 'Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?' Mae'n cyfeirio yn rhywle 'at y briw agored yng nghalon Duw' a ddaeth yn obaith yn atgyfodiad Iesu. Mae'r atgyfodiad yn cyfeirio'r byd at Deyrnas Dduw heddiw ac yfory. Dyma'r deyrnas sy'n iacháu ac yn trawsnewid y byd. Oherwydd hyn, yr oedd diwinyddiaeth Moltmann yn 'ddiwinyddiaeth ecwmenaidd' ac yn ymwneud â phob agwedd o fywyd y byd. A *broad place* yw teitl Saesneg ei hunangofiant.

Nid yw Moltmann yn gyfforddus gyda'r unionged na'r rhyddfrydol eu bryd. Mae ei dystiolaeth yn tarddu o le dyfnach na hynny, lle mae Duw ei hun yn dioddef a lle mae ei Fab yn olau o obaith.

Yn 1965, pan oeddwn yn gofyn i Ulrich Kuder am ganiatâd i agor ychydig ar y llenni i gael golau dydd i'n hystafell, nid oeddwn yn sylweddoli y gallai'r weithred honno erbyn hyn i mi fod yn symbolaidd o waith a chyfraniad mawr Jürgen Moltmann. Mae profiad Cristnogion ac Iddewon yn ystod yr Holocaust ac yn dilyn yr Holocaust yn dystiolaeth na allwn ei gwerthfawrogi'n llawn nac yn iawn. Yn araf mae'r golau wedi treiddio i weddill yr 20fed a'r 21ain ganrif – diolch i Moltmann a'i oes o dystiolaeth i obaith yr Efengyl. Nid oes reswm i ni fod yn ddim ond yn bobl gobaith.

## Cyfarfodydd Blynyddol Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Wedi misoedd o baratoi gofalus, fe ddaeth yr amser i gynnal Cyfarfodydd y Gymanfa yng Nghalfaria, Login, ddydd Mawrth, 14 Mai, er anrhydedd i'r Llywydd, Eurfyl Lewis, a enwebwyd gan Weithgor Gorllewin Myrddin fel Llywydd 2023-4. Mae Eurfyl wedi bod yn ffyddlon iawn i Galfaria ers ei blentyndod gan gychwyn yn yr ysgol Sul, cael ei fedyddio a'i dderbyn yn aelod cyn ei ddewis yn ddiagon ymhen amser. Ef yw ysgrifennydd gweithgar yr achos ers nifer o flynyddoedd a chyn hynny bu'n drysorydd am sawl blwyddyn.

Ar y Sul blaenorol gwahoddwyd aelodau o eglwysi eraill o'r ardal i ymuno mewn oedfa gymun, a hynny o dan ofal Alun Lenny, Caerfyrddin, a chafwyd oedfa fendithiol dan ei arweiniad.

Cychwynwyd y cyfarfodydd drwy dderbyn o groeso'r aelodau a chael cwpanaid o de neu goffi a sgwrs yn y festri cyn mynd i'r capel ar gyfer y gynhadledd.

Is-lywydd y Gymanfa, y Parchedig John Treharne, Llwynhendy, gymerodd at y defosiwn, a chroesawyd pawb yn gynnes iawn gan Faith Wright ar ran Calfaria.

Roedd y gynhadledd yn gyfle i dderbyn adroddiadau amrywiol ac ethol cynrychiolwyr a swyddogion. Cyflwynodd y Parch. Mary Davies, Llandeilo, un o'i haelodau yn Providence, Cwm-du, sef Dawn Richards, fel darpar is-lywydd, a braf oedd derbyn yr enwebiad gyda phawb yn unfrydol. Cyn cloi'r gynhadledd, cafwyd gair gan Bill Davies, Caerdydd, yn dwyn cyfarchion Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru.

Gwahoddwyd y Parch Rob Nicholls i bregethu yn dilyn y gynhadledd. Teimlai yntau hi'n fraint gan ei fod yn sefyll ym mhulpud un o'i gyndeidiau, sef y Parch D. S. Davies (Dafis Login) â'r gofeb iddo ar y mur y tu cefn i'r pulpud. Cyn gwrando ar ei neges, cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parch Sian Elin Thomas a chafwyd pregeth rymus ac amserol gan y gennad. Wyn Evans, Cwmmfelin Mynach, Trysorydd y Gymanfa, gyhoeddodd y fendith.

Yna, cafwyd cyflwyniad gan Dr Christian Tucker-Williams, Swyddog Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru, ar Adroddiad 2041. Adroddiad yw hwn sydd wedi ei baratoi gan yr Undeb i edrych tua'r



dyfodol a sicrhau bod popeth mewn lle yn strategol a chyfreithiol wrth i achosion wynebu cyfnodau heriol ac i ddiogelu'r dystiolaeth Fedyddiedig yng Nghymru. Roedd ei gyflwyniad yn wych a phleidleisiwyd yn unfrydol dros symud ymlaen â'r gwaith.

Oedfa Genhadol oedd yn agor gweithgareddau'r prynhawn, a hynny dan lywyddiaeth Llywydd Senana'r Gymanfa, Natalie Morgan, Aberteifi. Dwy o chwirydd Calfaria fu'n darllen a gweddio ar y dechrau, sef Ceirios Jenner a Sian Davies. Ymhlith y rhai y cofiwyd amdanynt oherwydd salwch oedd Beti Thomas, Sanclêr, a fu'n ffyddlon iawn i waith y Senana. Y Parch Sian Elin Thomas siaradodd ar ran Mudiad Chwirydd Bedyddwyr Cymru a chafwyd gair ar ran Elsa Harflett a Misha Pedersen, Llywyddion Senana Cymru, gan Ann Bowen Morgan, Llanbedr Pont Steffan.

Cyn galw ar y siaradwraig wadd, sef Sioned Graves, Swyddog Cenhadol a Chyfathrebu'r Undeb, pleser oedd neilltuo un arall o ffyddloniaid Calfaria, Faith Wright, yn Llywydd Senana Caerfyrddin a Cheredigion am y flwyddyn a derbyniodd Faith y swydd yn ddiolchgar ac urddasol.

Apeliwyd hefyd am gefnogaeth yr eglwysi tuag at Apêl Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe.

Penllanw gweithgareddau'r dydd oedd Oedfa'r Llywydd yn yr hwyr. Yn dilyn y rhannau arweiniol o dan ofal dau arall o aelodau Calfaria, sef Nigel Vaughan a Betty Evans, rhannwyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru gan

y Llywydd. Cyfoethogwyd yr oedfa gan eitemau hyfryd gan y ddeuawd adnabyddus Beti a Sian, dwy o aelodau Calfaria, a hefyd gan Corlan o dan arweiniad Ceirios Jenner, gyda Heather Jenkins yn cyfeilio.

Y Parch John Treharne yw Llywydd nesaf y Gymanfa ac fe'i neilltuwyd i'r swydd gan Rhidian Evans, Ysgrifennydd y Gymanfa, gyda'r Parch Aled Maskell yn offrymu Gweddî'r Neilltuo.

Cafwyd anerchiad arbennig gan Eurfyl wrth iddo orffen ei gyfnod fel Llywydd. Soniodd am y ffenest liw hyfryd ar flaen capel Calfaria, sydd wedi tynnu ei sylw ers dyddiau plentyndod a bod y golau sy'n dod trwyddi yn treiddio fel y golau sy'n dod i mewn i'n bywydau ar adegau llon a lleddf yn ein hanes. Addas oedd canu geiriau Elfed cyn yr anerchiad: 'mae yn olau, / ond cael gweld dy wyneb di'.

Diolch i Eurfyl am ei anerchiad gafaelgar a phwrpasol, ac am ei gyfraniad cydwybodol dros flwyddyn ei lywyddiaeth.

Profwyd croeso cynnes iawn yng Nghalfaria, Login, a diolch yn arbennig i bawb fu'n gweithio'n ddiwyd yn paratoi ac am y wledd a gafwyd yn y festri amser cinio ac amser te: y cinio dan ofal Robert James, Caffi Beca, a'r te gan chwirydd Calfaria. Diolch i bawb am bob cyfraniad ac am wasanaeth Betty Evans a Ceirios Jenner wrth yr organ gydoly cyfarfodydd. Derbyniwyd casgliadau teilwng hefyd, gyda chasgliad yr Oedfa Genhadol at waith y BMS a chasgliad Oedfa'r Llywydd tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

*Rhidian Evans*

## Balm i'r Enaid: adroddiad ar Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu




Yr Archddiacon Eileen Davies



Yr Esgob Stuart Bell



Dr Arfon Jones



Miss Glynis Owen

Bob blwyddyn, byddaf yn edrych ymlaen at fynd i Gefn Lea, Dolfor, gery Drenewydd ddiwedd Mai achos bod yr arlwy yn falm i'r enaid, yn gorfforol ac yn ysbrydol. Ar ôl cyrraedd a chofrestru, cawsom groeso gan ein Cyn-lywydd, y Parch. Mary Turnock, a chyfle i ddod i adnabod ein gilydd mewn grwpiau croesawgar. Yna, cawsom ein harwain mewn Gwasanaeth Agoriadol yn y neuadd gan Arthur Wyn Rowlands a roddodd sylfaen gadarn i'r ysgol haf.

Wedi swper blasus, ein darlithwraig oedd yr Archddiacon Eileen Davies, a sefydlodd yr Elusen Tir Dewi yn 2015 gyda chefnogaeth ariannol gan Esgobaeth Tyddewi a Chronfa Ymddiriedolaeth Cefn Gwlad y Tywysog. Fel gwraig fferm ei hun, gwyddai am yr amser heriol yr oedd ffermwyr yn ei wynebu. Ac aeth ati i hel gwirfoddolwyr sy'n cynnig cefnogaeth gyfrinachol yn rhad ac am ddim i ffermwyr Sir Benfro, Ceredigion, Caerfyrddin, Powys, Conwy, Môn, Gwynedd a Gŵyr. Eu gwefan yw [www.tirdewi.co.uk](http://www.tirdewi.co.uk), a'u llinell ffôn 0800 121 47 22 – sydd ar gael o 7 o'r gloch y bore hyd 10 o'r gloch y nos. Fe wnaeth ei darlith ysbrydoledig bigo ein cydwybod a bu cryn dipyn o drafod am y gwasanaeth sydd ar gael.

Andrew a Tina Saunders arweiniodd y Foreol Weddi fore Mawrth mewn naws ystyriol, ac wedi brecwast arweiniodd Arfon Jones ein mawl ar ei gitâr gan egluro y byddai'n cyflwyno sawl emyn newydd, hwyliog, inni ei ganu yn ystod yr ysgol haf. Braf oedd ymgynnull mewn grwpiau llai wedyn yn yr Astudiaethau Beiblaidd o gwmpas y bwrdd. Marc 5:21–43 oedd y maes a synnwyd at ddawn yr Arglwydd i iacháu, a'r ffaith fod hyd yn oed swyddog uchel yn y deml yn

ymddiried yn ei allu a'i fod yn teimlo'r pŵer yn ei adael pan gyffyrddodd y wraig a'r gwaedlif ei wisg.

Luc 7:1–17 oedd sail yr astudiaeth nesaf ddiwedd y pŵer. Gwelwyd bod yr Arglwydd yn ymateb i gais rhai o gefndir gwahanol am iachâd am eu bod â ffydd ynddo, a hyd yn oed wedi atgyfodi rhai oedd yn farw. Ar ôl swper cadwodd Arfon Jones ei air wrth roi sialens inni ddysgu nifer o ganeuon hwyliog i'n hysbrydoli yn ein moliant.

Fore Mercher, y Parch. Eleri Edwards a arweiniodd ein Boreol Weddi yn fyfyrgar, ac yna croesawodd ein Cyn-lywydd yr Esgob Stuart Bell, sy'n aelod o Gymanfa Anglicanaidd Ewrop, atom i'n hannerch. Darllenodd Luc 13:1–8, a bu'n trafod yn bwerus sut y trodd y byd allan yn wahanol i'r hyn a greodd Duw, a bu llawer o ddiodefaint ac afiechyd o ganlyniad. Os na wnawn syrthio ar ein bai ac edifarhau, yna byddwn fel y goeden ffigys, yn ddiffwrwyth. Synnwyd ni oll gyda'i gymariaethau, a sylweddoli pa mor anhygoel yw Duw.

Yn ei ail ddarlith, oedd wedi'i seilio ar adnod 28 o'r 8fed bennod o Lythyr Paul at y Rhufeiniaid, cyfaddefodd y bu iddo gael triniaeth am gancr y fron yn ddiweddar, a pha mor ddiymadferth y teimlai wrth fynd drwy'r broses. Wynebai ofn ac ansefydlogrwydd ysbrydol, a theimlai euogrwydd am hyn, ond ymwrolodd gan fagu plwch a chyfaddef, 'Os yw Duw trosom, pwy a all fod yn ein herbyn'. Gwyddom fod Duw yn trefnu popeth er ein lles a gallwn drwy ffydd wynebu unrhyw beth, a chofiwn am yr aberth a wnaed trosom ac er ein mwyn. O glywed hyn, roeddem oll wedi ein syfrdanu.

Dyna destament o weinidogaeth iacháu ar ei orau.

Yn ystod y prynhawn roedd cyfle inni ymweld â Chapel yr Efail, Aberriw, lle'r oedd arddangosfa'r Beibl wedi ei Wau. Yno, cawsom ein gwefreiddio gan waith y dwsinau o ferched oedd wedi gwau cymeriadau i gyfleu straeon y Beibl. Bu'n baratoad cymwys i'r Gwasanaeth Bendithio, wrth inni ystyried cymaint a wnaeth Duw drosom. Gydag arweiniad ein Llywydd, y Parch. Nerys Tudor, ac emynau mawl Arfon Jones, plygu a wnaethom yn wylaidd a gofyn am nerth i wneud gwaith yr Arglwydd, a phe dymunem, cael arddodiad dwylo a'n heneinio ag olew.

Fore Iau arweiniwyd ni gan Ann a Mari Dackvych i dawel fyfyrion ar yr holl fendithion a gawsom yn ystod yr ysgol haf, ac wrth inni gynnig ein moliant ar gân a rhannu ein profiadau'r bore hwnnw cytunai pawb pa mor fendithiol y bu ein hamser yn Cefn Lea eleni. Bu'n gyfle i ailgynnu ein fflamau mewnol, fel y gallem ddychwelyd i'n bröydd i ledanu teyrnas Dduw ac i iacháu cleifion yn enw Iesu Grist.

Coron y cwbl oedd cael cymuno dan law ein Llywydd Etholedig (EBC), Miss Glynis Owen, a gwelwyd cadernid didwyll ei ffydd yn treiddio drwy ei chyflwyniad ysgrythurol am bŵer iachâd Cristnogol. Fe'n bendithiwyd ni oll, a throesom tuag adre yn llawn brwdfrydedd wedi cael balm i'r enaid yn yr ysgol haf. Mawr yw ein diolch i Nerys Rowlands, Ysgrifennydd y Pwyllgor, am ei pharatoadau trylwyr.

*Nesta Davies*

# Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 32

Caplaniaeth ar faes Sioe Frenhinol Cymru



## Gweddi

Cofiwn heddiw, Arglwydd, am amaethwyr ein gwlad a'n byd. Cymorth ni i werthfawrogi eu hamgylchiadau wrth i ni sylweddoli bod y Beibl yn aml yn dy gyffelybu i fugarail da. Amen.

**Darlleniad: Ioan 10:1-21**

## Cyflwyniad

Yn y Beibl ceir llawer o gyfeiriadau at fugeiliaid a'r bywyd amaethyddol, ac er bod sôn am fustych nid oes llawer o gyfeiriadau at fwyta cig eidion na godro gwartheg. Mae'r diwydiant pysgota yn derbyn sylw a cheir cyfeiriadaeth at dyfu yd a bwyta bara. Datblygodd amaethyddiaeth wrth i'r Hebrëwyr ymsefydlu ac i Jwda ddatblygu fel gwladwriaeth.

Datblygodd y ddelwedd o fugeiliaeth yr eglwys i gyflwyno gofal aelodau dros ei gilydd ac yn 1 Pedr 5 ceir yr anogaeth i 'fugeilio praid Duw'. Cafodd Esgob Rhufain ffon fugarail i'w chario fel delwedd o'r swydd, ac mae'n ffasiynol i sôn am offeiriaid a gweinidogion eglwys fel bugeiliaid yr eglwys. Beth yw disgwyliadau aelodaeth eglwys o fugeiliaid yr eglwys, ac i ba raddau mae'r eglwys yn dangos gofal dros ei gilydd, a thros y gymdeithas ehangach?

## Myfyrdod

Un o nodweddion brawychus ein cyfnod yw clywed am nifer cynyddol o ffermwyr yn dewis hunanladdiad yn wyneb heriau'r bywyd amaethyddol. Bu'r gofid hwn yn bryder i'r Undebau Amaethyddol

yn gymaint ag i bob corff cysylltiol arall. Nodir bod mwy nag un amaethwr yr wythnos yn cyflawni hunanladdiad yn y Deyrnas Unedig. Mae'r gwaith yn medru bod yn unig gyda llawer o ansicrwydd ariannol yn wyneb y cyfnewidiadau sydd i'r diwydiant. Mae prisiau tir, anifeiliaid a pheiriannau amaethyddol mor uchel fel bod y fferm deuluol a fu'n llwyddiannus yn ystod yr ugeinfed ganrif wedi ildio'i lle i raddau helaeth i unedau mwy, gyda'r ychydig ffermwyr sydd ar ôl yn y diwydiant yn fusnesau enfawr.

Ynghanol y digwyddiadau hyn, mae'r eglwys yn chwilio am ei chyfle i ddangos cefnogaeth a dealltwriaeth ymarferol i amaethwyr yn unigol ac i'r diwydiant yn gyffredinol. Daeth sawl cyfundrefn enwadol ynghyd i gefnogi caplaniaeth yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, ac mae 15 caplan yn cydweithio i gynnal y gwasanaeth. Yn ystod yr wythnos bydd saith caplan ar y maes, gyda dau yn eu pabell a phump allan ar y maes. Cynhelir dwy egwyl ddefosiynol bob dydd, gan gynnig cyfle i amaethwyr sydd mewn sefyllfa fregus i drafod eu hamgylchiadau. Ceir presenoldeb caplaniaid ar faes y sioe mewn digwyddiadau eraill gydol y flwyddyn a chynigir gweinidogaeth hefyd yn y siroedd.

Anogir eglwys i gynnal y diwydiant hwn yn eu gweddïau yn gyson, ac i'r eglwys sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig fod yn effro i ofidiau amaethyddiaeth yn eu hardaloedd. Enghraifft o gorrff sy'n estyn allan i fugeilio'r ffermwyr yw

**Tir Dewi**, ac mae chwilio am fferdd o gefnogi mudiadau fel hyn yn ganolog i weinidogaeth eglwys yng nghefn gwlad Cymru yn greiddiol. Gall pob eglwys rannu yn y fraint o weddio dros y gymuned amaethyddol yn gyson.

## Gweddi

Duw y Bugail da, cyflwynwn i ti amaethwyr ein gwlad, gan ddyheu am weld y bydd eu diwydiant yn llwyddo i ddwyn tir gwastad ac economi gyson. Diolch am eu gwaith yn cynhyrchu bwyd i drigolion ein broydd ac am ddangos gofal dros dirwedd ein gwlad. Amen.

## Cwestiynau i'w hystyried

- 1 Amcan y ddameg oedd egluro natur Duw ac mae'n adlais o Salm 23. Beth fyddai'n ddieithr i'r Sadwceaid pybwr yn y portread hwn o Dduw?
- 2 Yn 1 Pedr 5, gelwir ar yr eglwys i fugeilio praid Duw. Sut byddwn yn uniaethu hyn â 'gweinidogaeth yr holl saint'?
- 3 A fyddwch yn synhwyro Iesu'r bugail da yn eich bugeilio chi?
- 4 Mae baich yr economi amaethyddol yn disgyn ar ysgwyddau unigolion, sy'n arswydo mewn ofn ac mewn dyledion eithriadol fawr yn aml. A welwch werth mewn gwahodd cynrychiolydd o gymdeithas Tir Dewi neu swyddog lleol o undeb amaethyddol i egluro natur eu pryderon i'ch eglwys, eich cwrdd chwarter neu eich henaduriaeth/cymanfa?



## Caniadaeth y Cysegr

Sul, 14 Gorffennaf, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Carys Tudor Williams

## Oedfa Radio Cymru

Sul, 14 Gorffennaf, am 12yp

Oedfa dan ofal Eysyllt Maelor, Morfa Nefyn

## Ymunwch â'r Daith gyda'r Iesu ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Anabledd

Mae elusen anabledd Through the Roof yn gwahodd eglwys i ddathlu Wythnos Ymwybyddiaeth Anabledd drwy gynnwys pobl anabl leol a chynnal gwasanaeth ddydd Sul, 22 Medi, neu ddiwrnod o'u dewis. Mae pecyn adnoddau eglwysig (Saesneg yn unig), rhad ac am ddim, ar gael [yma](#) ar y thema 'Taith gyda'r Iesu', yn cynnwys 'Stori Andrew' am y ddamwain a newidiodd ei fywyd.

## Tîm golygyddol newydd i'r cylchgrawn *Cristion*

Mae Heulwen Evans, Castellnewydd Emlyn, Eurfyl Lewis, Llanglydwen, a Sian Elin Thomas, Crymch, newydd ddechrau ar y gwaith o gydolygu cylchgrawn *Cristion* a bydd eu rhifyn cyntaf, sef rhifyn Gorffennaf / Awst 2024, ar werth yn fuan. Byddant yn cydolygu'r cylchgrawn am y tair blynedd nesaf, ac mae'r tri ohonynt yn edrych ymlaen yn eiddgar at drefnu ystod eang o erthyglau amrywiol a fydd, gobeithio, yn apelio at bawb. Y bwriad yw gwahodd pobol o bob oed i gyfrannu erthyglau, gan ddangos a phwysleisio, er ein bod yn byw mewn cyfnod o drai, yn grefyddol ac yn ysbrydol, fod y goleuni'n para i lewyrchu drwy'r tywyllwch.

Y ffordd hawsaf yw tanysgrifio i dderbyn copi, ond y ffordd rataf, yn enwedig os ydych yn byw gerllaw siop lyfrau Cymraeg, yw prynu copi yn y fan honno. Mae manylion llawn am y cynnig arbennig i unigolion ac eglwysi ar gael o wefan [www.cristion.net](http://www.cristion.net), a hyderwn y byddwch yn mynd ati i danysgrifio neu brynu'r cylchgrawn yn fuan. Diolch o galon ymlaen llaw i chi i gyd am eich cefnogaeth, a gobeithio cewch flas ar yr arlwy.

### Gair gan y golygyddion ar ddechrau eu tymor newydd

Mae'r tri ohonon ni'n dod o gefndiroedd a phrofiadau gwahanol, ac mae'n siŵr y bydd hyn o fantais wrth fynd ati â'r gwaith. A jiw, ni'n gyffrous i ddechrau!

Does dim amheuaeth nad oes gyda ni sgidiau mawr i'w llenwi, a dyma gyfle i ddiolch i Carwyn, Dylan a Nerys am eu gwaith arbennig dros y tair blynedd diwethaf. A diolch hefyd am eu cynngor gwerthfawr wrth i ni frwr mlaen i baratol ein rhifyn cyntaf.

Ond, wrth ddiolch am yr holl waith sydd wedi cael ei wneud, mae rhaid i ni edrych ymlaen at y dyfodol nawr, i'r cyfnod nesaf yma yn hanes *Cristion*. Ry'n ni'n credu'n gryf nad oes angen newid er mwyn newid chwaith. Bydd rhai pethau yn aros, fel 'Gair o'r Galon' a 'Fy Ngweinidogaeth' – mae'r erthyglau hyn o bob rhan o Gymru wedi bod mor ddiddorol ac amrywiol.

Ond, bydd ambell beth bach newydd. Yng ngeiriau emyn enwog iawn Lewis Valentine 'Dros Gymru'n Gwlad', clywn y geiriau:



O deud dydd pan fo awelon Duw  
yn chwythu eto dros ein herwau gwyw.

Mae'r tri ohonon ni'n teimlo'n angerddol ein bod am ganolbwyntio ar y gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru. Ry'n ni eisiau dangos bod awelon Duw, er efallai nad ydyn ni bob amser yn eu teimlo, yn dal i chwythu dros ein gwlad. Mae gennym hefyd arwyddair 'answyddogol', sef 'ffydd bob dydd', sy'n adlewyrchu'r ffaith ein bod yn awyddus i ddangos bod ein heglwysi yn rhan o'r gymdeithas bob dydd ac nid ar y Sul yn unig. A braf yw cael y cyfle, fel rhan o'r tîm golygyddol, i ddod â'r straeon hyn am bobl weithgar Cymru i dudalennau *Cristion*. Ry'n ni'n clywed digon am y pethau negyddol sy'n ymwneud â'n heglwysi a Christnogaeth yn gyffredinol, ac mae'n rhaid bod yn realistig a derbyn bod pethau'n hynod anodd i lawer. Ond credwn a gobeithiwn y bydd dangos y pethau positif, y pethau rhyfeddol sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn enw Iesu Grist, yn rhywbeth ardderchog ac yn hwb i eraill.

Wrth fynd ati i geisio gwneud hyn, ry'n ni wedi rhyfeddu a llawenhau yn barod at gymaint sy'n cael ei wneud.

Felly, ein bwriad trwy ychwanegu erthyglau fel 'Crwydro' ac 'Un Cam Bach' yw adlewyrchu'r pethau da sy'n digwydd o ddydd i ddydd. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn ein hysgolion Sul ac mewn eglwysi o bob enwad. Diolch i bawb sydd wedi cytuno i gyfrannu at y rhifyn yma – rydyn ni'n hynod o falch ohono!

Gobeithio y byddwch yn mwynhau beth sydd gyda ni ar eich cyfer. Bendith Duw arnoch i gyd.



Eglwys Bresbyteraidd Cymru

### Gofalaeth Bangor a'r Cyffiniau Gweithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd yn ofalaeth yn ardal Bangor Swydd Llawn neu Ran amser

Mae Gofalaeth Bangor a'r Cyffiniau yn chwilio am Weithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd i'r ofalaeth i ddatblygu gwaith plant ac ieuentid yn eglwysi'r ofalaeth ac i gynorthwyo yn y gwaith o ymestyn y dystiolaeth Gristnogol o fewn y cymunedau.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos.

**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.

**Cyflog:** Band 22–26 ar raddfa cyflog EBC neu uwch yn dibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC

**Lleoliad:** Yn gweithio o swyddfa Berea Newydd, mae'r swydd hon wedi ei lleoli yn ardal Bangor ac yn cynnwys y Felinheli ac Abergwyngregyn.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r Iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:  
e-bost – [swyddfa.office@ebcpcw.cymru](mailto:swyddfa.office@ebcpcw.cymru) 02920627465

**Dyddiad cau : 12 Gorffennaf 2024, 4 o'r gloch.**



Eglwys Bresbyteraidd Cymru

### Henaduriaeth Conwy Dyfrdwy Gweithiwr Ymestyn (ar gyfer Gofalaeth Thomas Charles)

Mae Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy yn dymuno penodi Gweithiwr Ymestyn (ar gyfer Gofalaeth Thomas Charles, Bala a Phenllyn) i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos.

**Cytundeb:** 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.

**Cyflog:** £31,214–£33,051, pwynt 31–35 pro rata, graddfa gyflog EBC neu'n uwch, yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad.

**Lleoliad:** Byddwch yn gweithio o Eglwys Thomas Charles, y Bala; fodd bynnag, efallai y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:  
e-bost – [swyddfa.office@ebcpcw.cymru](mailto:swyddfa.office@ebcpcw.cymru)  
ffôn – 02920 627465

**Dyddiad cau: 12ed Gorffennaf 2024, 4pm**

## Pererindota yn Sir Gâr

Yn ddiwedd glo, ac yn un o uchafbwyntiau ein rhaglen yn ystod tymor 2023–24, ddydd Mawrth, 11 Mehefin, aeth Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli ar eu pererindod blynyddol yng ngogledd-ddwyrain sir Gaerfyrddin. Cawsom ein tywys ar y daith, yn ddiogel ym mws Cwmni Dyffryn Taf a than gyfarwyddyd Guto Prys ap Gwynfor, ar hyd ffordd mân, culion a serth, i fannau cyfarwydd yng nghyfeirnod Guto yn ardal ei febyd yn Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych. Cawsom fwynhau golygfeydd ysblynydd yn ogystal â chlywed a dysgu am hanes cyfoethog yr ardal o ddyddiau cynnar y seintiau Celtaidd – Dewi, Teilo a Brynach – hyd at ddyddiau'r diwydiant calch ar ben y Mynydd Du.

Wedi gadael Caerfyrddin a chael ein hatgoffa am gestyll y Cymry yn Nyffryn Tywi, cawsom y stop cyntaf yn Eglwys Teilo Sant yn Llandeilo. Yno mae yna arddangosfa yn adrodd hanes Llyfr Efengylau Teilo sy'n dyddio yn ôl i'r wythfed ganrif ac yn perthyn i'r gymuned grefyddol a'r fynachlog sefydlwyd yno gan Teilo Sant, a fu'n ddisgybl i Dewi Sant. Mae Llyfr Efengylau Teilo yn un o drysorau cywrair, diwylliannol ac ysbrydol Cymru, ac mae i'w gymharu â Llyfr Kells, Iwerddon, ac Efengylau Lindisfarne, sy'n perthyn i'r un cyfnod. Adroddir yr hanes ar y byrddau arddangos yn llawr tŵr Eglwys Teilo Sant a gellir gweld y tudalennau a'r cloriau lliwgar i'r efengylau ar sgrin gyfrifiadurol. Roedd yn hyfryd hefyd gweld sut mae'r hen eglwys wedi ei moderneiddio mor gelfydd gyda grisiau'n cyfleu coron ddrain Calfaria yn arwain i ystafelloedd yn llofft yr eglwys.

Wedi egwyl am goffi, aethom yn ein blaen nes cyrraedd pentref Trap a syllu ar gadernid Castell Carreg Cennen. Yna, gwau ein ffordd ar hyd ffordd mân y wlad, gan gael ein cyfareddu agenwau hen ffermydd sy'n tystio i hanes cyfoethog yr ardal. Daethom allan wrth droed y Mynydd Du, ger tro'r gwcw, a gweld olion y diwydiant calch, a cherdded i weld yr odynau calch, diwydiant a fu mewn bri i mewn i'r ugeinfed ganrif. Wrth gofio am yr amaethwyr fu'n cyrchu i'r mynydd o bell ac agos er cael calch yn wrtaith, clywsom yn helaeth gan Guto am weithrediadau



Guto ger carreg goffa Gwynfor ar y Garn Goch



Catrin, Sian Elin a Beti Wyn – picnic ar ben y Mynydd Du!

gwrthryfel Beca yn yr ardal. Cyfeiriodd at yr ymgyrchoedd fu'n brwydro am gyfiawnder i ffermwyr yn y ddeunawfed ganrif drwy dministrio clwydi yn yr ardal ac amddiffyn hawliau'r werin yn wyneb gormes landlordiaid. Cawsom ginio yn yr awyr agored wrth droed y Mynydd Du, pob un wedi dod â'i becyn bwyd, wedi gweld a syllu ar y rhaeadr galchfaen odidog a rhyfeddu at ysblander Cwm Sawdde wrth edrych i lawr ar bentref Gwynfe. A rhyfeddu hefyd at gynifer o hen dafarndau a arferai fod ar hyd y ffordd o Langadog i'r Mynydd Du!

Wedi teithio drwy Langadog, a chlywed fel y llosgwyd delw o Watcyn Wyn gan y pentrefwyr, aethom yn ein blaen i bentref Myddfai a chlywed am chwedl Llyn y Fan Fach a Meddygon Myddfai. Buom yn ymweld â'r hen eglwys yng nghanol y pentref lle ceir carreg fedd wrth borth yr eglwys i David Jones, yr olaf ymhlith disgynyddion Meddygon Myddfai. Aethom ymlaen wedyn i dref hynafol Llanymddyfri, a bras glywed am y Ficer Prichard a gweld y cerflun arian yn coffáu Llywelyn ap Gruffudd wrth droed y castell a'r gofeb newydd a hardd i gofio am gyfraniad William Williams, Pantycelyn. Paned cyflym yng Ngaffi'r West End ac yna yn ôl i gyfeiriad Llangadog er mwyn cyrraedd y Garn Goch gan ymweld â'r gofeb yno sy'n coffáu Gwynfor Evans, tad Guto, ac aelod seneddol cyntaf Plaid Cymru.

Yn fab i'w dad, nid yw'n syndod bod Guto yn hanesydd lleol sy'n adnabod hanes ardal ei febyd mor dda. Clywsom ganddo mai ymweld â'r Garn Goch oedd un o hoff lecynnau ei dad, ac y byddai Gwynfor yn fynych yng nghwmni ei briod a'i blant yn cerdded i fyny i'r Garn Goch gan syllu ar ehanger sir Gaerfyrddin o ben y garn. Yno byddai'n adrodd hanes y sir wrth syllu i wahanol gyfeiriadau a chofio am y gwroniaid fu'n gysylltiedig â Llandeusan, Llanymddyfri, Talylychau, tref hynafol Llandeilo Fawr ac arglwyddiaeth yr Arglwydd Rhys yn y ddeuddegfed ganrif.

Wedi ein swyno wrth wrando ar Guto yn traethu cerddasom i ben y garn gan fwynhau'r panorama oddi yno a chael ein swyno gan yr holl hanes o'n hamgylch. Mor bwysig yw cofio'r hen enwau a chadw'n fyw yr hanes cyfoethog sy'n gysylltiedig â'r Mynydd Du neu Foel Gornach, a rhoi iddo'i hen enw, Caer Godolor, sef yr hen enw ar y Garn Goch, a Lluch Sawdde, yr hen enw ar Lyn y Fan Fach.

Daeth y diwrnod i ben wrth i ni fwynhau pryd gyda'r hwyr yn nhafarn y Plough yn Rhos-maen – cinio blasus a chymdeithas braf yng nghwmni ein gilydd ar hyd y dydd.

*Emyr Gwyn Evans*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)



CennadCymru



@CennadCymru